

TIWTORIALS AR YOUTUBE



Mae cyfngiad oed o 13 ar ddefnyddio YouTube. Er hyn awgrymir fod y plant yn defnyddio'r wefan yma o dan oruchwyliaeth oedolyn.


<https://www.youtube.com/channel/UCGkvc6DSuQdTfT59mg>



Gwersi Ukulele

Mae'r cerddor Mei Gwynedd yn cynnig gwersi ukelele i blant ar ei sianel Youtube. Bydd fideos newydd i'w gweld bob bore Mawrth a bore dydd Iau.

<https://www.youtube.com/c/huwaaron>



Criw Celf

Bydd yr arlunydd a chartwnydd Huw Aaron yn rhannu tips arlunio, creu comics, gemau ac animeiddio i blant bob dydd am 3 o'r gloch.

<https://www.youtube.com/channel/UCAPFIcbzwM5I9jgcZSUkeJw>



Orielodl

Mae'r arlunydd Rhys Padarn Jones wedi creu cyfres o fideos i blant i'w dilyn er mwyn creu lluniau amrywiol sy'n cynnwys llun i gyd-fynd gyda llythrennau'r wyddor, llun i gyd-fynd gyda chaneuon fel Sosban Fach a.y.b.

<https://www.youtube.com/channel/UCytr>



Art Ninja

Ceir nifer nifer o fideos amrywiol o'r rhaglen CBBC er mwyn creu lluniau, modelau a.y.b.



<https://www.youtube.com/channel/UCAxW1XT0iEJo0TYIRfn6rYQ>



#P.E. With Joe

Casgliad o fideos ymarfer corff gan Joe Wicks i blant.

<https://www.youtube.com>



Cosmic Yoga

Sesiynau ioga ac ymlacio ar gyfer plant 3+.

<https://www.youtube.com/channel/UCbJ14mhOuxf473heSgb90Q>



Gweithgareddau Actifiti

Cylchedi drwy'r Gymraeg a Saesneg bob dydd Llun-Gwener am ddim.

<https://www.youtube.com/channel/UCLbGTL7Ete>



Teulu Ffit gan Ffit Cymru

Sesiynau ffitrwydd ar gyfer yr holl deulu yn fyw gyda Rae Carpenter bob bore dydd Llun i ddydd Gwener am 9 o'r gloch. Gallwch wyllo nhw eto unrhyw amser ar y sianel Youtube.



<https://www.facebook.com/sgiliau/>



Sgiliau

Ceir cardiau gweithgareddau ar gyfer plant y Cyfnod Sylfaen a sesiynau ffitrwydd ar gyfer disgyblion CA2/CA3.

<https://www.facebook.com/OtiMabuse/>



Dawnsio gyda Oti Mabuse

Bob bore am 11:30 bydd Oti Mabuse yn cyflwyno dawns gwahanol i chi gael dilyn.

<https://www.facebook.com/diversedancemix/>



Dawnsio gyda Darcey Bussell

Bydd gwersi dawnsio o ddydd Llun i dydd Gwener am 1:30 y.p. ar dudalen Facebook DDMix.

<https://www.facebook.com/stevebackshallofficial/>



Steve Backshall

Bob dydd am 9.30 y.b. bydd Steve Backshall yn ateb cwestiynau am fywyd gwylt, cadwraeth, bioleg, daearyddiaeth a fforio yn fyw ar ei dudalen Facebook.



<https://www.youtube.com/maddiemoate>



Gwyddoniaeth gyda Maddie Moate

Bob bore am 11 o'r gloch mae Maddie Moate yn siarad am wahanol agweddau o wyddoniaeth a byd natur.


<https://www.youtube.com/channel/UCQh2wgJ5tOrixYBn6jFXsXQ>



Cerddoriaeth gyda Myleene Klass

Bydd Myleene Klass yn gwneud sesiynau cerdd i blant bob dydd Llun a dydd Gwener am 10 o'r gloch. Bydd hi hefyd yn gwneud sesiwn hwiangerddi am 6.30 y.h. bob dydd Mercher.


<https://www.worldofdavidwalliams.com/elevenses/>



David Walliams

Bob dydd am 11 o'r gloch bydd yr awdur David Walliams yn darllen stori gwahanol allan o'i lyfrau 'World's Worst Children'. Mae'r stori ar gael tan 11 o'r gloch y diwrnod canlynol!

https://www.youtube.com/watch?time_continue=3&v=FifpAgXUq8&feature=emb_logo




Cyflwyniad i Hwb a J2E

Cyflwyniad i rieni a disyglbion sut i fewngofnodi i Hwb a defnyddio J2E gan Mr Huw Benbow o Gyngor Sir Benfro.



<https://youtu.be/LVqyW9AtQdl>



Newid iaith yn Hwb a J2E
Mae'r fideo yn dangos sut mae
newid o fersiwn Cymraeg i'r
fersiwn
Saesneg o J2E.

<https://youtu.be/ObUSGBOUCuc>



Uwchlwytho gwaith sydd ddim yn
ddigidol i J2E
Mae'r fideo yn dangos sut allwch
chi lwytho gwaith sydd ddim yn
ddigidol i fyny i J2E.

<https://www.facebook.com/Sianisi>




Siani Sionc
Sesiynau canu a darllen stori i
blant oedran meithrin ar gael ar
dudalen Facebook Siani Sionc.

<https://www.facebook.com/learncymraeg/>



Dysgu Cymraeg / Learn Welsh
Mae gwersi Cymraeg i ddysgwyr
(tua 10 munud mewn hyd) ar
gael am 3 o'r gloch bob dydd ar
dudalen Facebook Dysgu Cymraeg
/ Learn Welsh.

<https://twitter.com/goytrefawr/status/1254101208735846408>



Mynediad i Hwb drwy yr Xbox
Fideo gan ddisgybl yn Ysgol Goytre
Fawr, Sir Fynwy, yn dangos cyfres o
gampau i newid gosodiadau yr Xbox i gael
mynediad i Hwb.



GOLCHI DWYLO

Y GÊM

- Mae pawb yn golchi dwylo yn aml y dyddiau yma – ydych chi'n gallu sefyll ar un goes wrth wneud? Newidwch goes hanner ffordd trwyddo, neu bob tro ydych chi'n golchi dwylo.
- Awydd her wahanol –beth am ymestyn boliau'r coesau. Sefwch ar flaenau eich traed a gostwng yn araf – yna gwnewch e eto ag eto!

AWGRYM DA

- Ar gyfer her hirach ac anoddach – ydych chi'n gallu gwneud yr uchod tra'n brwsio dannedd?!

YMARFER TARGED

Y GÊM

- Casglwch poteli neu tins wag, ac adeiladwch darged efo nhw.
- Gyda sanau wedi eu rowlio mewn i bêl, taflwch at y targed i geisio cwypmo'r eitemau i gyd.
- Ceisiwch daflu dros y fraich ac o dan y fraich.

AWGRYM DA

- Sawl tro sydd eisiau arnoch chi i gwypmo'r targedu i gyd?
- A oes rhywbeth arall allwch chi daflu at y targed, fel pêl go iawn, neu fag ffa?
- Allwch chi leihau'r nifer o boteli neu tins i gwypmo?

BAR CYDBWYSEDD

Y GÊM

- Dewch o hyd i gordyn neu raff. Ymestynnwch ar draws y ddaear. A gallwch gerdded ar draws y rhaff heb gwypmo?
- A gallwch chi roi bocys yn y ffordd i gamu drosodd?
- A gallwch chi gerdded i'r ochr, neu gerdded am nôl?
- Beth am roi rhywbeth ar eich pen, fel sanau mewn pêl?

AWGRYM DA

- Beth am rollo tywel lan i gerdded arno?
- Beth am gau eich llygaid? A ydy hyn yn effeithio eich cydbwysedd?
- Allwch chi gydbwyso ar un troed?
- Beth am bwysu ymlaen wrth gydbwyso?

RASUS

Y GÊM

- Symud môr gyflym ac y gallwch at ryw bwynt ac yn ôl
- Rhedeg, Sgipio, Neidio, Hercian - gofynnwch i'ch plentyn i feddwl am ffyrdd gwahanol o symud
- Recordiwch, a cheisiwch guro eich amser, neu rasiwch rhywun arall!

AWGRYM DA

- Beth am ei wneud yn anoddach drwy fownsio pêl, taflu a dal pêl, neu gydbwyso rhywbeth meddal ar eich pen!



GOLFF SANNAU

Y GÊM

- Bydd angen i chi ffeindio par o sannau a'i rowlio nhw lan mewn i bêl, a bwced neu focs.
- Rhaid i chi daflu'r sannau mewn i'r bwced.
- Cyfrwch sawl taflad i gyrraedd y targed.

AWGRYM DA

- Beth am greu "Cwrs Golff" o amgylch y tŷ, gan fynd o un ystafell i'r llall.
- Dewiswch sawl tro sydd angen er mwyn cyrraedd y twll.
- Os yw taflu yn hawdd, bwrwch allan o'ch llaw fel bwrw pel Tennis gyda rased.

CEREDIGION
ACTIF

 Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

SYMUDIADAU ANIFEILIAID

Y GÊM

- Dewch lan gydag wyth anifail gwahanol, neu defnyddiwch olwyn ni.
- Ar hap, dewiswch un anifail o'r olwyn. Symudwch ar draws yr ystafell neu'r ardd yn symud fel yr anifail yna.
- Allwch chi, neidio fel broga, stompio fel eliffant ac yn y blaen

AWGRYM DA

- Os anifeiliaid newydd i ychwanegu?
- Ydych chi'n gallu newid o un anifail i'r llall yn cloi?

CEREDIGION
ACTIF

 Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

GÊM CLAPIO

Y GÊM

- Dalwch bêl yn dwy law. Taflwch y bêl lan i'r awyr. Wrth i'r bêl fod yn yr awyr, a gallwch glapio eich dwylo cyn dala'r bêl?
- Sawl gwaith allwch chi glapio eich dwylo cyn dala'r bêl?

AWGRYM DA

- Beth am ddefnyddio pethau main gwahanol?
- Beth am balwn? Pêl maint mawr fel pêl rygbi neu bêl-droed. Beth am bêl lai fel pêl tenis neu bêl criced? Beth am bêl tenis-bwrdd?
- Allwch chi ddala gydag un llaw?

CEREDIGION
ACTIF

 Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

CLOWN YN Y DRYCH

Y GÊM

- Bydd angen i chi ffeindio Clown yn eich cartref (Mam, Dad, Brawd neu Chwaer)
- Sefwch wyneb yn wyneb 'a'r Clown, a rhaid i chi ddilyn ac ail greu pob symudiad.
- Newidiwch y Clown bob 30 eiliad.

AWGRYM DA

- Rhowch ddarn o offer i'r clown. Beth am ddefnyddio tedi, neu degan yn lle pêl.
- Clown yn methu symud, rhaid dilyn cyfarwyddiadau ar lafar.
- Byddwch yn greadigol, a chofiwch 'neud digon o chwerthin!

CEREDIGION
ACTIF

 Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



Cyfnod Sylfaen Sesiwn 1:

https://www.youtube.com/watch?v=tTPT7TZ81V4&list=PL9UGnyrcd3cK9q_Q4Tx2QaFjm2DnWdt_h&index=3&t=92s

Cyfnod Sylfaen Sesiwn 2:

https://www.youtube.com/watch?v=SG2Yvcp2E6s&list=PL9UGnyrcd3cK9q_Q4Tx2QaFjm2DnWdt_h&index=4

Cyfnod Sylfaen Sesiwn 3:

<https://www.youtube.com/watch?v=2AHgVm3l8fE&t=6s>

Cyfnod Allweddol 2 – Sesiwn 1:

https://www.youtube.com/watch?v=wq4S0Eck9Sw&list=PL9UGnyrcd3cK9q_Q4Tx2QaFjm2DnWdt_h&index=3

Cyfnod Allweddol 2 – Sesiwn 2:

https://www.youtube.com/watch?v=yl8nh_OA0eg&t=7s

Fideo sialens sawl un allwch wneud mewn 30 eiliad.

<https://spark.adobe.com/video/cIMbDkNifPuop>